

Deddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014

Rheolau

Llety Arall Cyf

ENW

1. Enw'r gymdeithas fydd Llety Arall Cyf.

SWYDDFA GOFRESTREDIG

2. Bydd swyddfa gofrestredig y gymdeithas yn 10 Stryd y Plas, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1RR

DEHONGLIADAU

3. Yn y rheolau hyn:

Mae "**Cyfeiriad**" yn golygu cyfeiriad post neu, at ddibenion cyfathrebu electronig, rhif ffacs, cyfeiriad e-bost neu rif ffôn ar gyfer derbyn negeseuon testun.

Mae "**y Ddeddf**" yn cyfeirio at Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cydweithredol 2014 neu unrhyw Ddeddf neu Ddeddfau yn ei newid neu yn dod yn ei lle hi neu nhw sydd am y tro mewn grym;

Mae "**Archwilydd**" yn golygu person sy'n gymwys i'w benodi fel archwilydd cwmni o dan Ran 42 o Ddeddf Cwmnïau 2006;

Mae "**Bwrdd y Cyfarwyddwyr**" neu'r "**Bwrdd**" yn cyfeirio at y bobl hynny a benodwyd i gyflawni dyletswyddau cyfarwyddwyr y gymdeithas;

Mae "**Cyfarfod Bwrdd**" yn cynnwys, ac eithrio pan mae'n anghyson ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, cyfarfod corfforol, cyfarfod a gynhelir drwy gyfrwng electronig a chyfarfod a gynhelir ar y ffôn;

Nid yw "**Dyddiau Clir**" o safbwynt y cyfnod rhybudd yn cynnwys y diwrnod y cynhelir y cyfarfod a'r diwrnod y rhoddir y rhybudd i rywun neu y'i gadewir yn eu Cyfeiriad, neu'r dyddiad y'i hanfonir, y mae wrthi'n cael ei anfon ac y tybir y caiff ei ddsbarthu;

Mae "**Cyfarwyddwr**" yn golygu cyfarwyddwr o'r gymdeithas ac mae'n cynnwys unrhyw berson sy'n dal safle cyfarwyddwr, pa fodd bynnag y'i henwir;

Mae "**Dogfen**" yn cynnwys, oni nodir yn wahanol, unrhyw ddogfen a anfonwyd neu a gyflenwyd ar ffurf electronig;

Gall "**Dull Electronig**" gynnwys, er enghraifft, e-bost, cysylltiadau fideo a throsglwyddiadau gwefan dilysedig diogel;

Mae "**Cyflogai**" yn golygu unrhyw un sy'n dal cytundeb cyflogaeth gyda'r Gymdeithas;

Mae "**Penderfyniad Eithriadol**" yn golygu, oni bo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, y penderfyniadau hynny sy'n gofyn am benderfyniad eithriadol fel ag y manylir arnynt o dan 'Penderfyniadau' yn y rheolau hyn

Mae "**Aelod Sefydlu**" yn golygu rhywun sy'n tanysgrifio i'r rheolau hyn at ddibenion cofrestru;

Mae gan "**Aelod**" yr un ystyr ag y manylwyd arno o dan 'Aelodaeth' yn y rheolau hyn;

Mae "**Swydd-Ddeiliad**" yn golygu derbynnnydd, derbynnnydd gweinyddol, diddymwr, diddymwr dros dro neu weinyddwr Aelod o'r cyfan neu'r rhan fwyaf o asedau'r Aelod;

Mae gan "**Swyddog**" yr ystyr y manylir arno o dan 'Swyddogion' yn y rheolau hyn;

Mae "**Person**" yn golygu, oni bo'r cyd-destun yn mynnu'n wahanol, bod dynol, corff anghorfforedig, cwmni, partneriaeth, corff corfforaethol neu enwebai corff anghorfforaethol, cwmni, partneriaeth neu gorff corfforaethol;

Mae "**Cofrestrydd**" yn golygu yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) neu unrhyw gorff sy'n olynu ei swyddogaeth;

Mae i "**Rheoliadau**" yr ystyr y manylir arno o dan 'Rheoliadau' yn y rheolau hyn;

Mae "**Rheolau**" yn golygu y Rheolau hyn;

Mae "**Ysgrifennydd**" yn golygu unrhyw berson a benodwyd i gyflawni dyletswyddau Ysgrifennydd y gymdeithas;

Mae "**y Gymdeithas**" yn golygu'r gymdeithas a enwyd uchod;

Mae "**Trosglwyddadwy**" yn golygu cyfranddaliadau gyda'r hawl cysylltiedig i'r Aelod godi a derbyn yn ôl gwerth eu cyfranddaliadau gan y Gymdeithas;

Mae "**Codadwy**" yn golygu cyfranddaliadau gyda'r hawl cysylltiedig i'r Aelod godi a derbyn yn ôl, werth eu cyfranddaliadau gan y Gymdeithas;

Mae "**Ysgrifen**" yn golygu cynrychioli neu atgynhyrchu geiriau, symbolau neu wybodaeth arall mewn ffurf weladwy drwy unrhyw ddull neu gyfuniad o ddulliau, p'un ai eu hanfonwyd drwy Ddull Electronig neu fel arall.

AMCANION

4. *Amcanion y Gymdeithas fydd gweithredu unrhyw fusnes er budd y gymuned drwy:-*

- a) *gyfrannu at adfywiad economaidd a diwylliannol Caernarfon drwy ddatblygu cyfleusterau i bobl brofi a dysgu am iaith, diwylliant a threftadaeth y dref. Mae Caernarfon yn arbennig oherwydd dyma'r dref Gymreiciaf yn y byd. Bydd yn galluogi pobl o Gymru a thu hwnt i ddod i brofi'r iaith Gymraeg fel iaith fyw gymunedol ac ar yr un pryd bydd yn cynyddu balchder y dref yn yr iaith fel caffaeliad y dylid ei ddathlu a'i hyrwyddo.*

b) *darparu man cyfarfod a llety mewn adeilad a addaswyd ar gyfer grwpiau o ymwelwyr, a anelwyd yn bennaf ond nid yn llwyr at ddysgwyr ac eraill o weddill Cymru, Ewrop a thu hwnt.*

5. Bydd y Gymdeithas yn berchen ac yn cael ei rheoli gan ei Haelodau ar sail deg ac ecwitiol.

PWERAU

6. Gall y Gymdeithas wneud unrhyw bethau cyfreithlon er diben hyrwyddo amcanion y Gymdeithas ac, yn arbennig, gall fenthycu neu godi arian at unrhyw ddiben sydd o fudd i'r Gymdeithas.

BENTHYCA

7. Bydd gan y gymdeithas y pŵer i fenthycu arian gan ei Haelodau ac eraill er mwyn hybu ei hamcanion ymhellach cyn belled na fydd y swm sy'n ddyledus ar unrhyw un adeg yn fwy na £10,000,000.
8. Bydd gan y Gymdeithas y pŵer i forgeisio neu godi am unrhyw ran o'i eiddo, yn cynnwys asedau ac ymgymeriadau'r Gymdeithas, yn awr ac yn y dyfodol, ac i ryddhau stoc benthyca, debenturau a gwarannau eraill am arian a fenthycwyd neu ar gyfer perfformiad unrhyw gontractau gan y Gymdeithas neu ei chwsmeriaid neu Bersonau sydd mewn trafodion â'r Gymdeithas.
9. Ni ddylai'r gyfradd llog ar arian a fenthycwyd, ac eithrio ar arian a fenthycwyd drwy fenthyciad banc neu orddrafft neu gan dŷ cyllid neu ar forgais gan gymdeithas adeiladu neu awdurdod lleol, fod yn fwy na 5% y flwyddyn neu 2% uwchben cyfradd sail Banc Lloegr ar ddechrau'r benthyciad, pa un bynnag sydd fwyaf.
10. Gall y Gymdeithas dderbyn gan unrhyw Berson, roddion neu fenthyciadau yn ddi-log er mwyn hyrwyddo'i hamcanion ond ni chaiff dderbyn arian ar adnau.

GWEITHGAREDD DEDDF GWASANAETHAU A MARCHNADOEDD ARIANNOL 2000

11. Er mwyn osgoi amheuaeth, ni ddylai'r Gymdeithas gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd yn rhinwedd unrhyw un o'r Rheolau hyn a fyddai angen caniatâd gan y Cofrestrydd i wneud y gweithgaredd hwnnw heb fod wedi gwneud cais i ddechrau a chael y cyfryw ganiatâd.

BUDDSODDI ARIAN

12. Gall y Gymdeithas fuddsoddi unrhyw gyfran o'i chyllid yn y dull a amlinellwyd yn Adran 27 o'r Ddeddf.

AELODAU

13. Aelodau cyntaf y Gymdeithas fydd yr Aelodau Sylfaen. Gall y Bwrdd yn ôl ei ddoethineb ganiatáu aelodaeth i unrhyw unigolyn, corff corfforaethol neu enwebai corff anghorfforedig, cwmni neu bartneriaeth sy'n cefnogi amcanion y Gymdeithas ac sydd wedi talu neu wedi cytuno i dalu unrhyw danysgrifiad neu swm arall sy'n ddyledus o safbwynt aelodaeth sydd mewn grym am y tro.

Ceisiadau am Aelodaeth

14. Ni chaiff unrhyw fod dynol fod yn aelod o'r Gymdeithas nes iddynt gyrraedd 16 oed. Mae'n rhaid i bawb sy'n dymuno bod yn Aelod gefnogi amcanion y Gymdeithas a llenwi cais am aelodaeth a ddylai gynnwys cais am o leiaf un cyfranddaliad yn y Gymdeithas. Rhaid i ffurflen gais o'r fath gael ei chymeradwyo gan y Cyfarwyddwyr a rhaid i'r Cyfarwyddwyr gymeradwyo pob cais am aelodaeth.
15. Caiff corff corfforaethol sy'n Aelod drwy benderfyniad ei gorff llywodraethu benodi cynrychiolydd a fydd, yn ystod tymor eu penodiad, â hawl i arfer yr hawliau a'r pwerau y byddai'r corff corfforaethol yn eu harfer pe bai'n berson unigol. Rhaid i bob Aelod corff corfforaethol hysbysu'r Gymdeithas mewn Ysgrifen am eu dewis gynrychiolydd.

Ymrwymiad Aelodau

16. Mae pob Aelod yn cytuno i gymryd rhan mewn cyfarfodydd cyffredinol a chymryd diddordeb gweithredol yng ngwaith a datblygiad y Gymdeithas a'i busnes. Mae gan yr Aelodau ddyletswydd i barchu natur gyfrinachol penderfyniadau busnes y Gymdeithas.

Terfynu Aelodaeth

17. Bydd Aelod yn gorffen bod yn Aelod o'r Gymdeithas yn syth os ydynt yn:
 - (a) Methu â dal yr isafswm cyfranddaliadau; neu
 - (b) Ddim yn talu'r tanysgrifiad blynyddol (os oes un) o fewn 3 mis iddo fod yn ddyledus; neu
 - (c) Yn ymddiswyddo mewn Ysgrifen i'r Ysgrifennydd; neu
 - (d) Wedi'u diarddel o aelodaeth yn unol â'r Rheolau hyn; neu
 - (e) Yn marw, yn cael eu dirwyn i ben neu'n cael eu diddymu.

Diarddel o Aelodaeth

18. Gall Aelod gael ei ddiarddel am ymddygiad sy'n niweidiol i'r Gymdeithas gan Benderfyniad Eithriadol, cyn belled â bod sail y diarddel wedi'i bennu yn y rhybuddion sy'n galw'r cyfarfod a bod yr Aelod yr ystyrir ei ddiarddel yn cael cyfle i gyflwyno achos i'r cyfarfod, neu yn ôl dewis yr Aelod, fod unigolyn sydd yno i'w cynrychioli (nad oes raid iddo fod yn Aelod o'r Gymdeithas) wedi cael caniatâd i gyflwyno achos i'r cyfarfod cyffredinol.
19. Os, yn dilyn cael rhybudd digonol, nad yw'r Aelod yn mynychu'r cyfarfod, gall y cyfarfod fynd yn ei flaen yn absenoldeb yr Aelod.
 - (a) Bydd Aelod a ddiarddelwyd yn cael ei dalu gwerth enwol y cyfranddaliadau a ddelir ganddynt ar adeg y diarddel;
 - (b) Ni chaiff unrhyw Aelod a ddiarddelwyd eu hail-dderbyn ac eithrio drwy Benderfyniad Eithriadol.

Y DREFN YN DILYN MARWOLAETH NEU FETHDALIAD AELOD

20. Ar hawliad a wneir gan:
- (a) Gynrychiolydd personol Aelod ymadawedig; neu
 - (b) Yr ymddiriedolwr mewn methdaliad Aelod sydd wedi methdal; neu
 - (c) Deiliad Swydd unrhyw eiddo yn y Gymdeithas sy'n berchen i Aelod o'r fath, bydd y Gymdeithas yn trosglwyddo neu'n talu unrhyw eiddo y mae'r Swydd Ddeiliad â hawl iddo fel ag y'i cyfeirir gan Ddeiliad y Swydd.
21. Gall Aelod, yn unol â'r Ddeddf, enwebu unrhyw unigolyn neu unigolion i unrhyw eiddo sydd ganddo/ganddi yn y Gymdeithas ar adeg eu marwolaeth gael eu trosglwyddo iddo, ond bydd enwebiad o'r fath ddim ond yn ddilys i'r graddau y caniateir y swm ar y pryd yn y Ddeddf. Wedi derbyn prawf boddhaol o farwolaeth Aelod sydd wedi gwneud enwebiad i'r Gymdeithas gall y Gymdeithas, yn unol â'r Ddeddf, naill ai drosglwyddo neu dalu gwerth llawn yr eiddo a gynhwyswyd yn yr enwebiad i'r unigolyn neu'r unigolion sydd â hawl iddo yn ôl y gofynion hynny.

Cyfalaf Cyfrannau

22. Gwerth enwol cyfranddaliadau'r Gymdeithas fydd £1. Diffinnir isafswm y daliad sy'n ofynnol ar Aelod fel y nifer hynny o gyfranddaliadau a dalwyd yn llawn y mae'r Bwrdd yn eu pennu yn ddarostyngedig i'r Ddeddf, neu fel y bo'n ofynnol gan gynnig arbennig o gyfranddaliadau, neu, heb benderfyniad neu ofyniad o'r fath, un cyfranddaliad.
23. Gall Aelod wneud cais am gyfranddaliadau mewn tafelli o gyfranddaliadau sy'n llai mewn nifer na'r isafswm dal cyfranddaliadau, cyn belled â bod unrhyw Aelod nad yw'n cyrraedd yr isafswm hwn o fewn 12 mis i'w taliad cyntaf, yn ôl doethineb y Bwrdd, yn peidio â bod yn Aelod. Bydd unrhyw berson sy'n peidio â bod yn Aelod o dan y rheol hon yn cael gwerth eu cyfranddaliadau ar y dyddiad y bu iddynt beidio â bod yn aelod yn ôl a bydd y cyfranddaliadau perthnasol yn cael eu dileu.
24. Rhaid i geisiadau am gyfranddaliadau gael eu gwneud i Fwrdd y Gymdeithas a fydd yn pennu i Aelodau, wrth iddynt gael eu derbyn, y cyfranddaliad neu'r cyfranddaliadau y gwnaethant gais amdanynt cyn belled na fydd cyfanswm nifer y cyfranddaliadau a bennwyd i unrhyw Aelod yn fwy na'r uchafswm a ganiateir yn ôl y gyfraith. Rhaid talu'n llawn am gyfranddaliadau wrth iddynt gael eu pennu.
25. Os nad yw Aelod sy'n gorfod tynnu ei aelodaeth yn ôl o dan y Rheolau hyn yn gallu trosglwyddo'u cyfranddaliadau ac mae'r hawl i godi cyfranddaliadau wedi ei atal, yna bydd gwerth enwol eu cyfalaf cyfrannau yn cael ei drosi'n stoc benthyciad ar y telerau y cytunir arnynt rhwng y Bwrdd a'r Aelod, neu eu cynrychiolydd personol, ymddiriedolwr, ymddiriedolwr mewn methdaliad, neu Swydd Ddeilydd, cyn belled â bod cytundeb o'r fath yn mynnu ad-dalu'r benthyciad o fewn cyfnod o ddim hwy na thair blynedd.
26. Dim ond yn unol â darpariaethau'r Rheolau hyn y gellir codi cyfranddaliadau. Bydd cyfranddaliadau yn anhrosglwyddadwy ac eithrio:
- (a) ar farwolaeth neu fethdaliad; neu

- (b) (yn achos corff anghorfforedig neu bartneriaeth), ar newid enwebai(enwebeion) a dim ond i'r enwebai(enwebeion) newydd.

Codi cyfalaf cyfrannau

27. Gall Aelodau godi cyfrannau wrth roi rhybudd o dri mis i'r Gymdeithas (er bod y Bwrdd yn cadw'i ddisgresiwn llwyr i ddychwelyd yr arian a dalwyd amdanynt), cyn belled â bod :
- (a) Pob codiad yn cael ei dalu yn y drefn y derbyniwyd y rhybuddion gan y Gymdeithas;
 - (b) Ni fydd hawl gan Aelod i godi cyfranddaliadau a fyddai'n eu gadael gyda llai na'r isafswm cyfranddaliad, oni eu bod yn bwriadu terfynu eu haelodaeth o'r Gymdeithas;
 - (c) Gall y Bwrdd hepgor y rhybudd sydd ei angen i godi cyfranddaliadau a gall orchymyn fod taliad yn cael ei wneud heb rybudd neu ar rybudd llai fel y gwêl yn addas;
 - (d) Gall y Bwrdd, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, atal yr hawl i godi naill ai'n gyfan neu'n rhannol naill ai am hyd amhendant neu am gyfnod sefydlog. Bydd yr ataliad yn ymestyn ac yn wir am bob rhybudd codi a dderbyniwyd ac sydd yn dal heb eu talu ar yr adeg y mae'r Bwrdd yn atal yr hawl i godi. Pan fo'r ataliad am gyfnod sefydlog, gall y Bwrdd ymestyn cyfnod o'r fath o dro i dro.
 - (e) Yn ystod unrhyw gyfnod pan fo'r hawl i godi cyfranddaliadau wedi'i atal o dan y ddarpariaeth uchod, gall cyfranddaliadau Aelodau ymadawedig, os yw'r Bwrdd yn cytuno, gael eu codi gan eu cynrychiolwyr personol ar roi'r rhybudd sy'n ofynnol gan y Bwrdd;
 - (f) Y swm i'w dalu i Aelod ar godi cyfranddaliadau fydd y swm a dalwyd neu a gredydwyd ar y rhai sydd i'w codi, ac eithrio lle mae'r cyfranddaliadau yn ddarostyngedig i ostyngiad yn eu gwerth yn unol â darpariaethau'r Rheolau hyn;
 - (g) Telir llog ar unrhyw gyfranddaliad lle rhoddwyd rhybudd ad-daliad hyd nes dyddiad yr ad-daliad.
28. Bydd unrhyw gyfranddaliad a godir yn unol â'r Rheolau hyn yn cael ei ddileu.
29. Gall Aelodau dynnu'n ôl o'r Gymdeithas drwy godi eu holl gyfranddaliadau yn y Gymdeithas yn unol â'r Rheolau hyn neu, os ataliwyd yr hawl i godi, drwy ildio'u cyfranddaliadau i gyd i'r Gymdeithas. Wrth ildio felly gall y Bwrdd, yn ôl ei ddoethineb, dalu i'r Aelod sy'n tynnu'n ôl, y swm a dalwyd neu a gredydwyd ar y cyfranddaliadau a ildiwyd.
30. Gall y Gymdeithas ddiynnu swm rhesymol i dalu costau gweinyddol codi'r arian sy'n daladwy i Aelod wrth godi cyfranddaliadau yn y Gymdeithas.

Gostyngiad yng Ngwerth Cyfranddaliadau

31. Os yw Archwilwyr y Gymdeithas (neu unrhyw gyfrifwyr cymwys annibynnol a benodwyd at y diben hwn gan y Bwrdd) yn tystio ar unrhyw adeg fod cyfanswm

rhwymedigaethau'r Gymdeithas ynghyd â swm ei chyfalaf cyfrannau yn fwy na'i hasedau, yna (oni bod yr ormodaeth wedi ei thynnu) gall y Bwrdd benderfynu fod swm yr ormodaeth hon, neu ran ohoni, yn cael ei ddosrannu ymhlith yr Aelodau yn gymesur â (ond nid y tu hwnt i) swm gwerth enwol y cyfranddaliadau a dalwyd amdanynt ac a ddelir gan bob Aelod. Bydd y dosraniad hwn yn seiliedig ar werth y cyfranddaliadau a dalwyd amdanynt ac a ddelir gan bob Aelod ar ddiwedd trafodion ar ddyddiad penderfyniad o'r fath. Bydd gwerth y cyfranddaliadau a ddelir gan bob Aelod yn cael ei ostwng felly at ddibenion codi cyfranddaliadau, cyn belled nad yw gwerth y cyfranddaliadau a ddelir gan unrhyw Aelod yn gostwng islaw'r isafswm cyfranddaliad fel ag y pennwyd yn y Rheolau hyn.

Hawlrym ar Gyfranddaliadau a Hawl Gosod yn Erbyn

32. Bydd gan y Gymdeithas hawlrym ar gyfranddaliadau Aelod am unrhyw ddyled sy'n ddyledus iddi gan yr Aelod a gall roi unrhyw swm yn erbyn sydd yng nghredyd yr Aelod gyda'r Gymdeithas i neu tuag at dalu dyled o'r fath.

CYFARFODYDD CYFFREDINOL

33. Bydd y Gymdeithas, o fewn chwe mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cynnwys cyfarfod cyffredinol o'r Aelodau yn ei chyfarfod blynyddol a bydd yn pennu'r cyfarfod fel y cyfryw yn y rhybudd sy'n ei hysbysu.
34. Bydd busnes cyfarfod cyffredinol blynyddol yn cynnwys, lle'n briodol:
- (a) Derbyn y cyfrifon a'r fantolen ac adroddiadau'r Bwrdd a'r Archwilydd (os oes rhai);
 - (b) Penodi Archwilydd, os oes angen;
 - (c) Ethol y Bwrdd neu ganlyniadau etholiad os y'i cynhaliwyd yn flaenorol drwy bleidlais;
 - (d) Defnyddio'r elw;
 - (e) Trafodion unrhyw fater arall a gynhwyswyd yn rhybudd y cyfarfod.

Galw Cyfarfod Cyffredinol

35. Gall yr Ysgrifennydd, ar gais y Bwrdd Cyfarwyddwyr, alw cyfarfod cyffredinol o'r Gymdeithas. Bydd pwrpas y cyfarfod cyffredinol wedi'i nodi yn rhybudd y cyfarfod.
36. Bydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr, ar gais a lofnodwyd gan un rhan o ddeg o gyfanswm nifer yr Aelodau, neu 100 Aelod, p'un bynnag yw'r lleiaf, a anfonwyd i swyddfa gofrestredig y Gymdeithas, yn galw cyfarfod cyffredinol. Bydd pwrpas y cyfarfod cyffredinol yn cael ei ddatgan yn y cais am gyfarfod a'r rhybudd. Ni fydd unrhyw fater heblaw'r hyn a nodwyd yn rhybudd y cyfarfod yn cael ei drafod yn y cyfarfod.
37. Os, o fewn un mis o ddyddiad derbyn y cais, nad yw'r Bwrdd wedi galw cyfarfod cyffredinol i'w gynnal o fewn chwe wythnos i'r cais, gall unrhyw dri Aelod o'r Gymdeithas sy'n gweithredu ar ran y llofnodwyr i'r cais alw cyfarfod cyffredinol, a bydd y Gymdeithas yn ad-dalu unrhyw gostau iddynt a wynebwyd wrth alw cyfarfod o'r fath.

Rhybuddion

38. Wrth alw'r cyfarfod cyffredinol mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwyr roi 14 Diwrnod Clir o rybudd i bob Aelod. Bydd pob cyfarfod cyffredinol arall yn cael ei alw gydag o leiaf 14 Diwrnod Clir o rybudd ond gallant gael eu cynnal ar rybudd llai os cytunir ar hynny mewn Ysgrifan gan 90% o'r Aelodau.
39. Rhaid i rhybuddion cyfarfodydd naill ai gael eu rhoi i'r Aelodau'n bersonol neu eu hanfon atynt yn eu Cyfeiriad, neu fel arall, os yw'r Gymdeithas yn cytuno ar hyn yn y cyfarfod blynyddol, gellir dangos rhybuddion cyfarfodydd cyffredinol mewn lle amlwg yn y swyddfa gofrestredig ac ym mhob un o lefydd busnes arall y Gymdeithas y mae gan yr Aelodau fynediad atynt. Rhaid i rhybuddion bennu dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod, a'r busnes sydd i'w drafod yn y cyfarfod hwnnw. Ni ddylai cyfarfod cyffredinol drafod unrhyw eitem heblaw'r hyn a bennwyd yn y rhybuddion sy'n galw'r cyfarfod.
40. Ystyrir fod rhybudd a anfonwyd i Gyfeiriad Aelod wedi cael ei roi'n briodol 48 awr wedi ei bostio. Ni fydd peidio ag anfon rhybudd yn ddamweiniol neu fethu â derbyn rhybudd gan unrhyw Berson sydd â hawl i dderbyn rhybuddion yn annilysu'r trafodion yn y cyfarfod.
41. Mae'n rhaid i bob rhybudd bennu dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod ynghyd â natur gyffredinol yr eitemau i'w trafod ac unrhyw benderfyniadau a gynigir.
42. Os yw'r Gymdeithas wedi penodi Archwilydd yn unol â'r Rheolau hyn, bydd ganddynt hawl i fynychu cyfarfodydd cyffredinol y Gymdeithas a derbyn pob rhybudd a gohebiaeth sy'n gysylltiedig ag unrhyw gyfarfod cyffredinol y mae gan unrhyw Aelod o'r Gymdeithas yr hawl i'w derbyn. Bydd gan yr Archwilydd hawl i gael ei glywed mewn unrhyw gyfarfod ar unrhyw ran o fusnes y cyfarfod sydd o ddiddordeb priodol i Archwilydd.

Cworwm

43. *Ni chaiff unrhyw fusnes ei drafod mewn cyfarfod cyffredinol oni bo cworwm o Aelodau'n bresennol a fydd yn cynnwys yr Aelodau hynny nad ydynt yn bresennol yn y cnaud. Oni newidir hyn gan Benderfyniad Eithriadol, y cworwm fydd 3 Aelod neu 10% o'r Aelodaeth, pa un bynnag sydd fwyaf.*

Cadeirio Cyfarfodydd Cyffredinol

44. Cadeirydd y Gymdeithas fydd yn hwyluso cyfarfodydd cyffredinol. Os yw ef/hi yn absennol neu'n anfodlon gweithredu ar yr adeg y mae unrhyw gyfarfod yn symud i fusnes yna dylai'r Aelodau sy'n bresennol ddewis un ohonyn nhw i gadeirio'r cyfarfod hwnnw.

Presenoldeb a Siarad mewn Cyfarfodydd Cyffredinol

45. Gall Aelod arfer yr hawl i siarad mewn cyfarfod cyffredinol ac ystyrir ei fod yn bresennol pan fo'r Person hwnnw mewn sefyllfa i gyfathrebu wrth bawb sy'n bresennol yn y cyfarfod. Gall y Cyfarwyddwyr wneud pa drefniadau bynnag sy'n briodol yn eu tyb nhw i alluogi'r rheiny sy'n bresennol mewn cyfarfod cyffredinol i arfer eu hawliau i siarad neu bleidleisio ynddo yn cynnwys drwy Ddull Electronig. Wrth benderfynu presenoldeb mewn cyfarfod cyffredinol, nid yw wahaniaeth a yw dau neu fwy o

Aelodau sy'n bresennol yn yr un man â'i gilydd, cyn belled â'u bod yn gallu cyfathrebu â'i gilydd.

46. Gall cadeirydd y cyfarfod ganiatáu i bobl eraill nad ydynt yn Aelodau o'r Gymdeithas fynychu a siarad mewn cyfarfodydd cyffredinol, heb roi unrhyw hawliau pleidleisio.

Gohiriad

47. Os nad yw cworwm yn bresennol o fewn hanner awr i'r amser yr oedd y cyfarfod cyffredinol i fod i ddechrau, neu os yn ystod cyfarfod yw cworwm yn stopio â bod yn bresennol, mae'n rhaid i'r cadeirydd ohirio'r cyfarfod. Os, o fewn hanner awr o'r amser yr oedd y cyfarfod gohiriedig i fod i ddechrau nad oes cworwm yn bresennol, mae'n rhaid i'r Aelodau sy'n bresennol gyfansoddi cworwm.
48. Gall cadeirydd cyfarfod cyffredinol ohirio'r cyfarfod tra bod cworwm yn bresennol os:
- (a) Yw'r cyfarfod yn cytuno â'r gohiriad hwnnw; neu
 - (b) Mae'n ymddangos i'r cadeirydd fod angen gohirio er mwyn gwarchod diogelwch unrhyw bobl sy'n mynychu'r cyfarfod neu i sicrhau fod busnes y cyfarfod yn cael ei gynnal yn drefnus.
49. Rhaid i'r cadeirydd ohirio'r cyfarfod os yw'r cyfarfod yn dweud wrtho am wneud hynny.
50. Wrth ohirio cyfarfod mae'n rhaid i'r cadeirydd bennu'r dyddiad, yr amser a'r lleoliad y gohirir ef ar eu cyfer neu fod y cyfarfod i barhau ar amser, dyddiad a lleoliad i'w pennu gan y Cyfarwyddwyr.
51. Os caiff y cyfarfod ei ohirio am 14 diwrnod neu fwy, rhaid rhoi o leiaf 7 Diwrnod Clir o rybudd o'r cyfarfod gohiriedig yn yr un modd â rhybudd y cyfarfod gwreiddiol.
52. Ni ddylid trafod unrhyw fusnes mewn cyfarfod gohiriedig heblaw'r busnes a fyddai wedi cael ei drafod yn y cyfarfod pe na bai wedi cael ei ohirio.

Pleidleisio

53. Bydd cynnig sy'n mynd i bleidlais mewn cyfarfod cyffredinol yn cael ei benderfynu drwy godi dwylo oni ofynnir am bleidlais bapur yn unol â'r Rheolau hyn. Bydd datganiad gan y cadeirydd fod cynnig yn dilyn codi dwylo wedi'i basio neu ei golli gyda chofnod i ddweud hynny yng nghofnodion y cyfarfod cyffredinol yn dystiolaeth derfynol o'r canlyniad. Nid oes angen cofnodion cyfrannau neu nifer y pleidleisiau o blaid neu yn erbyn.
54. Yn achos nifer cyfartal o bleidleisiau, p'un ai ar godi dwylo neu bleidlais, ni fydd gan y cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw ac ystyrir fod y cynnig wedi cael ei golli.

Pleidlais Bapur

55. Gellir gofyn am bleidlais bapur ar gynnig cyn neu wrth ddatgan canlyniad y codi dwylo gan dri Aelod mewn cyfarfod cyffredinol.

56. Os gofynnir yn briodol am bleidlais bapur, rhaid ei wneud yn y ffordd y mae'r cadeirydd yn mynnu, cyn belled nad oes gan unrhyw Aelod fwy nag un bleidlais, ac ystyrir mai canlyniad y bleidlais yw penderfyniad y cyfarfod lle y gofynnwyd am y bleidlais.
57. Ni ddylai'r cais am bleidlais bapur atal parhau'r cyfarfod ar gyfer trafod unrhyw fater arall ar wahân i'r cwestiwn y gofynnwyd am bleidlais iddo. Gellir tynnu'r cais am bleidlais bapur yn ôl.

Penderfyniadau

58. Bydd penderfyniadau mewn cyfarfodydd cyffredinol yn cael eu gwneud drwy basio penderfyniadau:
- (a) Mae'n rhaid i'r penderfyniadau canlynol gael eu gwneud drwy Benderfyniad Eithriadol:
- (i) Penderfyniadau i ddiarddel Aelodau;
- (ii) Unrhyw welliant i Reolau'r Gymdeithas, yn ddarostyngedig bob amser i reoliad 7 o Reoliadau Cymdeithasau Budd Cymunedol (Cyfyngu'r defnydd o Asedau) 2006, sy'n cael yr effaith o wneud y rheol 'Defnyddio Elw' sy'n delio â chyfyngu ar y defnydd o asedau yn ddi-alw yn ôl.
- (iii) Y penderfyniad i ddirwyn y Gymdeithas i ben.
- (b) Gwneir pob penderfyniad arall drwy benderfyniad arferol.
59. Penderfyniad Eithriadol yw un a gaiff ei basio gan fwyafrif o ddim llai na 75% o'r pleidleisiau a fwriwyd mewn cyfarfod cyffredinol a phenderfyniad cyffredin yw un a basiwyd gan fwyafrif syml (51%) o'r pleidleisiau a fwriwyd.
60. Gall cynigion gael eu pasio mewn cyfarfodydd cyffredinol neu drwy benderfyniad ysgrifenedig. Gall penderfyniad ysgrifenedig gynnwys sawl Dogfen yr un fath a lofnodwyd gan un neu fwy o'r Aelodau.

CYFARWYDDWYR

61. Bydd gan y Gymdeithas Fwrdd Cyfarwyddwyr sy'n cynnwys dim llai na thri Chyfarwyddwr.
62. Penodir Cyfarwyddwyr cychwynnol y Gymdeithas o'i chofrestru tan y cyfarfod cyffredinol blynyddol cyntaf gan yr Aelodau Sylfaen.
63. Dim ond pobl sy'n aelodau o'r Gymdeithas ac sydd yn 18 oed neu drosodd all wasanaethu ar y Bwrdd Cyfarwyddwyr.
64. *Bydd cyfansoddiad Bwrdd y Cyfarwyddwyr fel a ganlyn:*
- (a) *Hyd at ddeg Cyfarwyddwr a etholwyd gan ac o blith Aelodau'r Gymdeithas;*
- (b) *Hyd at dri Chyfarwyddwr, y mae'n rhaid iddynt fod yn Aelodau, a benodwyd i'r Bwrdd drwy gyfethol. Dewisir Cyfarwyddwyr Cyfetholedig gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr yn rhinwedd eu sgiliau arbennig a/neu eu profiad.*

Y Cylch Ymddeol

65. Yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol cyntaf mae'n rhaid i bob Cyfarwyddwr etholedig ildio'i le. Ym mhob cyfarfod cyffredinol blynyddol dilynol rhaid i draean y Cyfarwyddwyr etholedig, neu os nad yw eu nifer yn lluosrif o dri, yna'r nifer nesaf at draean, ymddeol o'u swydd. Y Cyfarwyddwyr fydd yn ymddeol yw'r Cyfarwyddwyr sydd wedi bod hiraf yn y swydd ers eu hetholiad diwethaf. Pan fo Cyfarwyddwyr wedi dal swydd am yr un faint o amser, bydd y Cyfarwyddwyr sydd i ymddeol yn cael eu penderfynu ar hap. Bydd Cyfarwyddwr sy'n ymddeol yn gymwys i gael ei ailethol.

Cyfethol Cyfarwyddwyr

66. Yn ychwanegol gall y Bwrdd Cyfarwyddwyr gyfethol hyd at ddau Gyfarwyddwr annibynnol allanol nad oes angen iddynt fod yn Aelodau, yn rhinwedd eu sgiliau arbennig a/neu eu profiad. Bydd Cyfarwyddwyr annibynnol allanol o'r fath yn gwasanaethu cyfnod sefydlog a bennwyd gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar adeg y cyfethol, yn amodol ar adolygiad o leiaf bob 12 mis. Gall Cyfarwyddwyr annibynnol Allanol gael eu tynnu o'r swydd ar unrhyw adeg drwy benderfyniad gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr.
67. Gall y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar unrhyw adeg lenwi sedd wag ar y Bwrdd drwy gyfethol. Mae'n rhaid i'r unigolion a gyfetholir fod yn Aelodau o'r Gymdeithas a byddant yn dal swydd fel Cyfarwyddwr ddim ond tan y cyfarfod blynyddol nesaf.

Pwerau a Dyletswyddau Bwrdd y Cyfarwyddwyr

68. Bydd busnes y Gymdeithas yn cael ei reoli gan y Bwrdd a all arfer holl bwerau'r Gymdeithas ag y gall gael eu harfer a'u gwneud gan y Gymdeithas ac nad ydynt yn ôl y gyfraith na'r Rheolau hyn yn ofynnol i gael eu harfer neu eu gwneud gan y Gymdeithas mewn cyfarfod cyffredinol.
69. Bydd pob penderfyniad a wneir gan gyfarfod o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr neu gan unrhyw berson sy'n gweithredu fel Cyfarwyddwr yn aros yn ddilys hyd yn oed os darganfyddir yn ddiweddarach fod rhyw ddiffyg ym mhenodiad y Cyfarwyddwr neu fod yr unigolyn wedi'i ddiarddel o'r blaen o weithredu fel Cyfarwyddwr.
70. Rhaid i bob siec, nodyn addewidiol, drafft, bil cyfnewid a dogfennau cyfnewidiadwy eraill, a phob derbynneb am arian a dalwyd i'r Gymdeithas gael eu harwyddo, eu tynnu, eu derbyn, eu cadarnhau, neu fel arall eu gweithredu yn y dull ag y gall y Bwrdd o dro i dro ei fynnu.
71. Heb leihau effaith ei bwerau cyffredinol, gall y Bwrdd arfer holl bwerau'r Gymdeithas i fenthyca arian ac i forgeisio neu godi ar ei ymgymeriad ac eiddo neu unrhyw ran ohono a rhyddhau debenturau a gwarannau eraill p'un ai'n llwyr neu fel sicrwydd am unrhyw ddyled, atebolrwydd neu rwymedigaeth ar ran y Gymdeithas neu unrhyw drydydd parti.
72. Ni fydd unrhyw Reoliad a wneir gan y Gymdeithas mewn cyfarfod cyffredinol yn annylsu unrhyw weithred flaenorol gan y Bwrdd a fyddai wedi bod yn ddilys pe na bai'r Rheoliad hwnnw wedi'i wneud.

Dirprwyaeth

73. Yn ddarostyngedig i'r Rheolau hyn, gall y Cyfarwyddwyr ddirprwyo unrhyw rai o'r pwerau a roddwyd arnynt o dan y Rheolau hyn i unrhyw Berson neu bwyllgor sy'n cynnwys Aelodau'r Gymdeithas, drwy'r fath fodd ac i'r fath raddau, mewn perthynas â materion o'r fath ac ar y telerau a'r amodau ag y gwelant yn dda.
74. Gall y Cyfarwyddwyr bennu y gall unrhyw ddirprwyaeth o'r fath awdurdodi dirprwyaeth bellach o'r pwerau gan unrhyw Berson y'u dirprwywyd iddo.
75. Gall y Cyfarwyddwyr ddirymu unrhyw ddirprwyaeth yn llwyr neu yn rhannol neu newid unrhyw delerau ac amodau.

Is-Bwyllgorau

76. Mae'n rhaid i is-bwyllgor y mae'r Cyfarwyddwyr yn dirprwyo unrhyw rai o'u pwerau iddo ddilyn y trefniadau sydd yn seiliedig cyn belled â'u bod yn berthnasol ar y darpariaethau hynny o'r Rheolau hyn sy'n llywodraethu gwneud penderfyniadau gan Gyfarwyddwyr.
77. Gall y Cyfarwyddwyr wneud Rheoliadau i bob un neu unrhyw is-bwyllgor, cyn belled nad yw'r cyfryw Reoliadau yn anghyson â'r Rheolau hyn.
78. Mae'n rhaid i holl weithredoedd a thrafodion unrhyw is-bwyllgor gael eu hadrodd yn llawn ac yn brydlon i'r Cyfarwyddwyr.

TRAFODION BWRDD Y CYFARWYDDWYR

Galw cyfarfod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr

79. Gall unrhyw Gyfarwyddwr, a'r Ysgrifennydd, ar ofyniad Cyfarwyddwr, alw cyfarfod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr drwy roi rhybudd rhesymol o'r cyfarfod i bob Cyfarwyddwr. Mae'n rhaid i rybudd unrhyw gyfarfod o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod ac, os na fydd y Cyfarwyddwyr sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod yn yr un lle, sut y byddant yn cyfathrebu â'i gilydd.

Trafodion Cyfarfod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr

80. Gall y Bwrdd Cyfarwyddwyr ddod at ei gilydd i gwblhau busnes, gohirio ac fel arall reoleiddio'u cyfarfodydd fel y gwelant yn dda.
81. Gall Cyfarwyddwr arfer yr hawl i siarad mewn cyfarfod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr ac ystyri ei fod yn bresennol pan fo'r person hwnnw mewn sefyllfa i gyfathrebu â phawb sy'n bresennol yn y cyfarfod. Gall y Cyfarwyddwyr wneud pa drefniadau bynnag yr ystyriant eu bod yn briodol i alluogi'r rheiny sy'n mynychu cyfarfod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr i arfer eu hawliau i siarad neu bleidleisio ynddo yn cynnwys drwy Ddull Electronig. Wrth ddiffinio presenoldeb mewn cyfarfod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr, nid yw wahaniaeth a yw dau neu fwy o'r Cyfarwyddwyr sy'n bresennol yn yr un lle â'i gilydd.
82. Bydd cwestiynau sy'n codi yn unrhyw un o gyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu penderfynu gan fwyafrif o bleidleisiau. Yn achos nifer cyfartal o bleidleisiau, cynhelir y *status quo* a gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr ddewis cyfeirio'r mater i gyfarfod cyffredinol o'r Gymdeithas.

83. Bydd penderfyniad ysgrifenedig, a ddsbarthwyd i'r Cyfarwyddwyr i gyd ac a lofnodwyd gan fwyafrif syml (51%) o Gyfarwyddwyr, yn ddilys ac effeithiol fel pe bai wedi'i basio mewn cyfarfod o'r Bwrdd a alwyd ac a gynhaliwyd yn briodol. Gall penderfyniad ysgrifenedig gynnwys nifer o Ddogfennau yr un peth a lofnodwyd gan un neu fwy o Gyfarwyddwyr.
84. Gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr, yn ôl ei ddoethineb, wahodd pobl eraill i fynychu ei gyfarfodydd gyda neu heb hawliau siarad a heb hawliau pleidleisio. Ni fydd mynychwyr o'r fath yn cyfrif tuag at y cworwm.

Cworwm

85. Y cworwm angenrheidiol ar gyfer trafod busnes mewn cyfarfod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr fydd 50% o'r Cyfarwyddwyr neu 3 Chyfarwyddwr, pa un bynnag sydd fwyaf a bydd yn cynnwys y Cyfarwyddwyr hynny nad ydynt yn bresennol yn y cnaud.
86. Os, ar unrhyw adeg, yw cyfanswm nifer y Cyfarwyddwyr yn y swydd yn llai na'r cworwm angenrheidiol, nid yw'r Cyfarwyddwyr yn gallu gwneud unrhyw benderfyniadau ac eithrio penodi Cyfarwyddwyr pellach neu alw cyfarfod cyffredinol er mwyn galluogi'r Aelodau i benodi Cyfarwyddwyr pellach.

Cadeirio Cyfarfodydd y Bwrdd

87. Y cadeirydd fydd yn hwyluso cyfarfodydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr. Os yw ef/hi yn absennol neu'n amharod i weithredu ar yr adeg y mae'r cyfarfod yn symud i fusnes, yna dylai'r Cyfarwyddwyr sy'n bresennol ddewis un o'u plith i gadeirio'r cyfarfod.

Datganiadau o Ddiddordeb

88. Dylai Cyfarwyddwr ddatgan diddordeb mewn unrhyw gontract neu fater y mae ganddo ef/hi ddiddordeb personol, materol neu ariannol ynddo, p'un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ac ni ddylai bleidleisio mewn cysylltiad â chontract neu fater o'r fath, cyn belled nad oes unrhyw beth sy'n atal Cyfarwyddwr rhag pleidleisio yn eu telerau ac amodau cyflogaeth neu unrhyw fater cysylltiedig.

Treuliau

89. Gall y Gymdeithas dalu unrhyw gostau rhesymol y mae'r Cyfarwyddwyr yn eu hwynebu'n briodol mewn cysylltiad â'u presenoldeb mewn cyfarfodydd neu fel arall mewn cysylltiad ag arfer eu pwerau a chyflawni'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Gymdeithas.

Terfynu Penodiad Cyfarwyddwr

90. Mae person yn peidio â bod yn Gyfarwyddwr o'r Gymdeithas cyn gynted â bod:
- (a) **Cyfethol Cyfarwyddwyr oherwydd eu sgiliau/profiad:** Tynnir y person hwnnw o'i swydd drwy benderfyniad gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr, pan fo'r person yn Gyfarwyddwr a gyfetholwyd oherwydd eu sgiliau arbennig a/neu eu profiad;
 - (b) **Pan maent yn cynrychioli cyrff ar y Bwrdd:** Mae'r corff y maent yn ei gynrychioli yn peidio â bod;

- (c) Y person hwnnw'n ymddiswyddo o'i swydd mewn Ysgrifennu i Ysgrifennydd y Gymdeithas, a'r ymddiswyddiad hwnnw wedi dod i rym yn unol â'i delerau;
- (d) Y person hwnnw'n cael ei dynnu o'r swydd drwy benderfyniad cyffredin gan y Gymdeithas mewn cyfarfod cyffredinol, y cafwyd rhybudd amdano a oedd yn pennu fod cael gwared ar y Cyfarwyddwr i'w ystyried;
- (e) Y person hwnnw wedi'i wahardd i fod yn Gyfarwyddwr gan y gyfraith;
- (f) Nad yw'r person hwnnw'n gymwys i weithredu fel ymddiriedolwr yn rhinwedd adrannau 178 a 179 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu unrhyw ailddeddfiad neu addasiad o'r darpariaethau hyn);
- (g) Mae gorchymyn methdal yn cael ei wneud yn erbyn y person hwnnw;

ym marn ysgrifenedig, a roddwyd i'r Gymdeithas, meddyg cofrestredig sy'n trin y person hwnnw, fod y person yn analluog yn gorfforol neu feddyliol i weithredu fel Cyfarwyddwr ac y gallant fod felly am dros dri mis.

SWYDDOGION

91. Gall y Bwrdd ethol o blith ei nifer ei hun gadeirydd ac Ysgrifennydd a Swyddogion eraill o'r fath ag y gallant benderfynu o dro i dro. Bydd gan y Swyddogion hyn y dyletswyddau a'r hawliau a roddir iddynt gan y Bwrdd neu gan y gyfraith a gall unrhyw Swyddog a benodwyd gael ei dynnu o'r Bwrdd. Serch hynny gall Swyddog sy'n gwasanaethu na chaiff ei ailethol i'r Bwrdd yn y cyfarfod blynyddol barhau yn ei swydd tan gyfarfod cyntaf y Bwrdd yn dilyn y cyfarfod blynyddol.

ANGHYDFODAU

92. Yn achos anghydfod rhwng y Gymdeithas a'r Bwrdd ac Aelod o'r Gymdeithas neu gyn Aelod, dylai anghydfod o'r fath gael ei gyfeirio at gymrodeddwr annibynnol y mae ei benodiad yn dderbyniol i'r ddwy ochr, neu yn niffyg cytundeb, i'w enwebu gan Ysgrifennydd Cyffredinol Cwmnïau Cydweithredol y DU (neu unrhyw swyddogaeth neu gorff sy'n olynu ei swyddogaeth). Bydd penderfyniad cymrodeddwr o'r fath yn derfynol. Pe digwydd na all anghydfod, am ba reswm bynnag, gael ei setlo drwy fynd at gymrodeddwr, gellir cyfeirio'r mater at y llys sirol (neu yn yr Alban at y siryf). Mae'n rhaid i unrhyw Berson sy'n dwyn anghydfod, os gofynnir am hyn, adneuo swm rhesymol (dim mwy na £100) gyda'r Gymdeithas, i'w bennu gan y Bwrdd. Bydd y cymrodeddwr yn penderfynu sut y telir costau'r cymrodeddu a beth ddylid ei wneud â'r adnau.

RHEOLIADAU

93. Gall y Gymdeithas mewn cyfarfod cyffredinol, neu Fwrdd y Cyfarwyddwyr, o dro i dro wneud, mabwysiadu a diwygio Rheoliadau ar ffurf is-ddeddfau, rheolau sefydlog, rheolau eilaidd neu fel arall fel y gwelant yn dda ar gyfer rheoli, cynnal a rheoleiddio materion y Gymdeithas a thrafodion a phwerau Bwrdd y Cyfarwyddwyr a'r is-bwyllgorau. Bydd Rheoliadau o'r fath (os o gwbl) ar gael i'r Aelodau eu gweld. Ni ddylid gwneud unrhyw Reoliad sy'n anghyson â'r Rheolau hyn neu'r Ddeddf. Bydd holl Aelodau'r Gymdeithas a Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn rhwym i'r cyfryw Reoliadau p'un ai eu bod wedi derbyn copi ohonynt ai peidio.

ATEBOLRWYDD AELODAU

94. Mae atebolrwydd Aelod wedi'i gyfyngu i swm eu cyfranddaliadau.

TALU LLOG AR GYFALAF CYFRANNAU

95. Gall y Gymdeithas dalu llog ar gyfalaf cyfrannau a ddosbarthwyd ar gyfradd neu gyfraddau a bennir gan y Bwrdd o dro i dro, ond heb fod yn fwy na 5% y flwyddyn neu 2% uwchben cyfradd sail Banc Lloegr, p'un bynnag yw'r mwyaf.

DEFNYDDIO ELW

96. Bydd Aelodau'r Gymdeithas yn cael eu gwobrwyo'n bennaf drwy ddiffidend cymdeithasol yn hytrach nag un ariannol. Bydd unrhyw elw i'r Gymdeithas yn cael ei ddefnyddio fel a ganlyn yn y cyfrannau ac yn y dull ag y penderfynir gan y Gymdeithas yn y cyfarfod blynyddol:
- (a) I gronfa gyffredinol er parhad a datblygiad y Gymdeithas; neu
 - (b) I wneud taliad at ddibenion cymdeithasol neu gymunedol o fewn y gymuned y mae'r Gymdeithas yn ei gwasanaethu.

CLO ASED AU

97. Yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 1 o Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2003 mae holl asedau'r Gymdeithas yn ddarostyngedig i gyfyngiad ar eu defnydd. Ni chaiff y Gymdeithas ddefnyddio na delio â'i hasedau ac eithrio:
- (a) Pan fo'r defnydd neu'r delio, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, at ddiben sydd er budd y gymuned;
 - (b) I dalu Aelod o'r Gymdeithas werth y cyfalaf cyfrannau y mae'n ei godi neu log ar gyfalaf o'r fath;
 - (c) Gwneud taliad yn unol ag adran 36 (taliadau mewn perthynas â phersonau heb alluedd) 37 (enwebiad gan Aelodau o hawliad i eiddo yn y Gymdeithas ar farwolaeth Aelod), 40 (marwolaeth Aelod: dosbarthu eiddo heb fod yn fwy na £5,000) o'r Ddeddf.
 - (d) Gwneud taliad yn unol â Rheolau'r Gymdeithas i ymddiriedolwyr eiddo Aelodau a fethdalodd, neu, yn yr Alban, Aelodau y mae ei hystâd wedi'i secwestru;
 - (e) Pan mae'r Gymdeithas i gael ei diddymu neu ei dirwyn i ben, i dalu ei chredydwyr; neu
 - (f) I drosglwyddo'i hasedau i un neu fwy o'r canlynol:
 - (i) cymuned budd cymunedol ragnodedig y mae ei hasedau yn destun cyfyngu ar ddefnydd ac y bydd y cyfyngiad hwnnw'n berthnasol i unrhyw asedau a drosglwyddir yn y fath fodd;
 - (ii) cwmni buddiannau cymunedol;

- (iii) landlord cymdeithasol cofrestredig sydd â chyfyngiad ar ddefnydd ei asedau sy'n cyfateb i gyfyngiad ar ddefnydd ac a fydd yn defnyddio'r cyfyngiad hwnnw ar unrhyw asedau a drosglwyddwyd yn y fath fodd;
- (iv) elusen (yn cynnwys cymdeithas buddiannau cymunedol sy'n elusen); neu
- (v) corff, a sefydlwyd yng Ngogledd Iwerddon neu Wladwriaeth heblaw'r Deyrnas Unedig, sy'n cyfateb i unrhyw un o'r Personau hyn.

UNO, TROSGLWYDDO YMRWYMIADAU AC ARNEWID

98. Gall y Gymdeithas, drwy benderfyniad arbennig a basiwyd yn y modd sy'n ofynnol gan adran 111 o'r Ddeddf, uno â, neu drosglwyddo ei hymrwymiaidau i gymdeithas gofrestrredig arall yn amodol ar o leiaf yr un raddfa o gyfyngu ar ddsbarthiad elw ac asedau fel ag y gosodwyd ar y Gymdeithas hon yn rhinwedd y Rheolau hyn. Gall y Gymdeithas hefyd dderbyn trosglwyddo ymrwymiaidau ac asedau drwy benderfyniad gan y Bwrdd neu drwy gyfarfod arbennig.
99. Gall y Gymdeithas, drwy benderfyniad arbennig a basiwyd yn y modd sy'n ofynnol gan adran 113 o'r Ddeddf, uno â, neu drosglwyddo ei hymrwymiaidau neu drawsnewid i gwmni, yn amodol ar o leiaf yr un raddfa o gyfyngu ar ddsbarthiad elw ac asedau fel ag y gosodwyd ar y Gymdeithas hon yn rhinwedd y Rheolau hyn. O ran galw cyfarfod cyffredinol at ddiben penderfyniad o'r fath, bydd y darpariaethau canlynol yn dod i rym:
- (a) Rhaid i'r Gymdeithas roi dim llai na dau fis o rybudd i'r Aelodau am y cyfarfod;
 - (b) Dylai rhybudd y cyfarfod gael ei osod mewn lle amlwg yn y swyddfa gofrestrredig ac ym mhob un o leoedd masnachu'r Gymdeithas y mae gan yr Aelodau fynediad iddynt;
 - (c) Gyda'r rhybudd dylai fod datganiad ar wahân yn amlinellu i'r Aelodau:
 - (i) y rhesymau dros y cynnig;
 - (ii) a yw'r cynnig yn cael cefnogaeth Bwrdd y Gymdeithas;
 - (iii) pa gynigion eraill a ystyriwyd, ac a ydynt yn hyfyw;
 - (iv) manylion nifer y cyfranddaliadau yn y Gymdeithas a ddelir gan Aelodau'r Bwrdd, a'r bobl sy'n gysylltiedig â nhw;
 - (v) argymhelliad gan gynghorwyr ariannol annibynnol cyfrifol y dylai'r Aelodau gefnogi'r cynnig yn hytrach nag unrhyw gynnig gwahanol.
 - (d) Pan mae'r datganiad ar wahân wedi'i gynnwys mewn Dogfen arall, dylid rhoi gwybodaeth yn y rhybudd yn pennu ble gall yr Aelodau gael copi o'r Ddogfen.

DIDDYMIAD

100. Gall y Gymdeithas gael ei diddymu:
- (a) yn unol ag adran 119 o'r Ddeddf drwy offeryn diddymu;

- (b) yn unol ag adran 123 o'r Ddeddf drwy ddilyn gorchymyn dirwyn i ben neu drwy benderfyniad a wnaed neu a basiwyd fel sy'n ofynnol o safbwynt cwmnïau gan Ddeddf Ansolfedd 1986; neu
- (c) yn unol ag adran 125 o'r Ddeddf, wedi gweinyddu ac mae'r gweinyddwyr yn cyhoeddi rhybudd i ddiddymu'r Gymdeithas heb ddirwyn i ben ymlaen llaw.

101. Os, wrth ddirwyn y Gymdeithas i ben neu ei diddymu, oes unrhyw rai o'i asedau yn aros i gael eu gwaredu ar ôl bodloni ei rhwymedigaethau, ni ddylid dosbarthu'r asedau hyn ymhlith yr aelodau, ond dylid eu trosglwyddo yn hytrach i ryw gorff neu gyrff di-elw eraill yn amodol ar o leiaf yr un raddfa o gyfyngiad ar ddsbarthu elw ac asedau ag a osodir ar y Gymdeithas hon yn rhinwedd y Rheolau hyn, fel ag y gall gael ei benderfynu gan yr aelodau ar adeg y diddymu neu cyn hynny.

TREFNIADAU GWEINYDDOL

Dull Cyfathrebu

- 102. Gall Aelod roi eu caniatâd i dderbyn gohebiaeth gan y Gymdeithas drwy Ddull Electronig.
- 103. Ystyrir fod rhybudd a anfonwyd i Gyfeiriad Aelod wedi cael ei roi'n briodol 48 awr wedi ei bostio. Gall Cyfarwyddwr gytuno â'r Gymdeithas fod rhybuddion neu Ddogfennau a anfonwyd ato/ati mewn ffordd arbennig i'w hystyried fel rhai a dderbyniwyd o fewn amser penodol i'w hanfon, ac i'r amser penodol fod yn llai na 48 awr.

Sêl

- 104. Os oes gan y Gymdeithas sêl, dim ond gan awdurdod Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn gweithredu ar ran y Gymdeithas y dylid ei defnyddio. Dylai pob offeryn y mae'r sêl wedi'i osod wrtho gael ei lofnodi gan Gyfarwyddwr a'i gydlofnodi gan ail Gyfarwyddwr neu'r Ysgrifennydd.

Cofrestru

- 105. Dylai Bwrdd y Cyfarwyddwyr sicrhau fod cofrestri cywir yn cael eu cadw a fydd yn cynnwys cofrestr Aelodau, cofrestr Cyfarwyddwyr a chofrestr Swyddogion.

Cofrestr Aelodau

- 106. Dylai'r Bwrdd sicrhau fod y gofrestr yn cael ei chadw yn unol â'r Ddeddf a bod y manylion sy'n ofynnol gan y Ddeddf ar gael i'w harchwilio ac yn hygyrch heb yr angen i ddatgelu manylion eraill sydd yn y gofrestr.

Cofrestr Cyfarwyddwyr a Swyddogion

- 107. Dylai'r Gymdeithas gadw cofrestr o Gyfarwyddwyr a Swyddogion a ddylai gynnwys y manylion canlynol:
 - (a) Enw'r Cyfarwyddwr;
 - (b) Cyfeiriad y Cyfarwyddwr;

- (c) Y dyddiad y bu iddynt gymryd y swydd;
- (d) Y dyddiad y bu iddynt adael y swydd;
- (e) Y safle a ddelir gan Gyfarwyddwr os yw ef/hi yn Swyddog hefyd a'r dyddiad y bu i'r Cyfarwyddwr gymryd a gadael ei safle fel Swyddog.

Newidiadau i'r Rheolau

108. Yn amodol bob amser ar reoliad 7 o Reoliadau Cymdeithasau Buddiannau Cymunedol (Cyfyngu ar Ddefnydd Asedau) 2006, sydd â'r effaith o wneud y rheol 'Defnyddio Elw' sy'n ymdrin â chyfyngu ar y defnydd o elw, yn un na ellir mo'i newid, gall unrhyw un o'r Rheolau hyn gael ei diddymu neu ei newid neu gellir gwneud rheol newydd drwy Benderfyniad Eithriadol mewn cyfarfod cyffredinol y rhoddwyd rhybudd o 14 Diwrnod Clir ar ei gyfer, a'r rhybudd i gynnwys manylion y newid(iadau) sydd i'w cynnig yn y cyfarfod hwnnw. Nid yw unrhyw newid i'r Rheolau yn ddilys hyd nes iddo gael ei gofrestru gan y Cofrestrydd. Wrth anfon newidiadau'r rheol i gael eu cofrestru, gall yr Ysgrifennydd yn ei ddisgresiwn llwyr, dderbyn unrhyw addasiadau sydd eu hangen neu a awgrymir gan y Cofrestrydd heb gyfeirio'n ôl at gyfarfod cyffredinol pellach o'r Gymdeithas.

Copiâu o Reolau'r Gymdeithas

109. Rhoddir copi o'r Rheolau hyn ac unrhyw newidiadau iddynt am ddim i bob Aelod wrth iddynt gael eu derbyn yn Aelod ac fe'u rhoddir i unrhyw Berson arall sy'n gwneud cais amdanynt ac sy'n talu'r ffi statudol a godir sydd mewn grym yr adeg honno.

Cofnodion

110. Rhaid i'r Gymdeithas sicrhau fod cofnodion yn cael eu cadw o'r rhain i gyd:
- (a) Trafodion cyfarfodydd cyffredinol o'r Gymdeithas; a
 - (b) Thrafodion cyfarfodydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr a'i is-bwyllgorau sy'n cynnwys enwau'r Cyfarwyddwyr sy'n bresennol, y penderfyniadau a wnaed a'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny.

Datganiad Blynyddol

111. Bob blwyddyn ac o fewn y cyfnod a ragnodwyd gan y Ddeddf, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd anfon y datganiad blynyddol yn y ffurflen ragnodedig i'r Cofrestrydd. Gyda'r datganiad blynyddol dylai fod:
- (a) Copi o adroddiad yr Archwilydd ar gyfrifon y Gymdeithas am y cyfnod a ddisgrifir yn y datganiad blynyddol neu gopi o adroddiad arall o'r fath (os o gwbl) fel sy'n ofynnol yn ôl y ddeddf am gyfnod o'r fath; a
 - (b) Chopi o bob mantolen a luniwyd yn ystod y cyfnod hwnnw ac adroddiad yr Archwilydd neu berson priodol arall fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ar y fantolen honno.
112. Os gwneir cais, rhaid i'r Gymdeithas roi am ddim i unrhyw Aelod neu unrhyw berson sydd â diddordeb yng nghyllid y Gymdeithas, gopi o'r datganiad blynyddol diweddaraf

ynghyd â chopi o adroddiad yr Archwilydd ar y cyfrifon a'r fantolen sydd yn yr adroddiad blynyddol ac Adroddiad yr Archwilydd (os o gwbl).

113. Rhaid i'r Gymdeithas bob amser gadw copi o fantolen ddiweddaraf y Gymdeithas ynghyd â chopi o adroddiad yr Archwilydd sy'n mynd gyda hi (os oes un) wedi'u hongian mewn lle amlwg yn y swyddfa gofrestredig a'i dangos ar wefan y Gymdeithas (os oes un).

Archwiliad

114. Oni bo'r Gymdeithas yn bodloni'r meini prawf a osodwyd yn adran 83(2) o'r Ddeddf neu'n gallu datgymhwyso'r gofyniad archwilio yn unol ag adran 84 o'r Ddeddf, mae'n rhaid i'r Bwrdd ym mhob blwyddyn ariannol benodi Archwilydd fel ag sy'n ofynnol gan adran 83(1) o'r Ddeddf, i archwilio cyfrifon a mantolen y Gymdeithas am y flwyddyn. Mae'r ddarpariaeth hon yn berthnasol hefyd os yw'r Gymdeithas yn ei blwyddyn ariannol gyntaf.
115. Ni cheir penodi'r canlynol yn Archwilydd y Gymdeithas:
- (a) Swyddog neu Weithiwr yn y Gymdeithas;
 - (b) Person sy'n gymar neu'n weithiwr i, neu sy'n cyflogi, Swyddog yn y Gymdeithas.
116. Gall y Bwrdd benodi Archwilydd i lenwi sedd wag sy'n codi rhwng cyfarfodydd cyffredinol.
117. Gellir ail-benodi Archwilydd y flwyddyn ariannol flaenorol yn Archwilydd y Gymdeithas am y flwyddyn ariannol bresennol oni bai:
- (a) Fod penderfyniad wedi'i wneud gan y Bwrdd i benodi Archwilydd gwahanol neu ei fod wedi penderfynu'n benodol i beidio ag ail-benodi ef/hi; neu
 - (b) Mae ef/hi wedi rhoi rhybudd mewn ysgrifen i'r Ysgrifennydd nad yw'n barod i gael ei ail-benodi;
 - (c) Nid yw ef/hi yn gymwys i gael eu penodi'n Archwilydd y Gymdeithas am y flwyddyn ariannol gyfredol; neu
 - (d) Mae ef/hi wedi peidio â gweithredu fel Archwilydd y Gymdeithas oherwydd analluogrwydd.
118. Ni fydd unrhyw benderfyniad cyffredin mewn cyfarfod cyffredinol o'r Gymdeithas naill ai i symud Archwilydd o'i swydd neu i benodi person arall yn Archwilydd yn dod i rym hyd nes y rhoddyd rhybudd am y penderfyniad arfaethedig i'r Gymdeithas o leiaf 28 diwrnod cyn y cyfarfod lle'r ystyrir y penderfyniad. Yna mae'n rhaid rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd am benderfyniad o'r fath i Aelodau'r Gymdeithas yn y modd a ragnodwyd yn y Rheolau hyn ac mewn Ysgrifen i'r Archwilydd (Archwilwyr).





Adrodd yn ôl yn Gymdeithasol

119. Yn ogystal ag unrhyw gyfrifon ariannol sydd eu hangen gan y Ddeddf, gall yr Aelodau benderfynu gwneud adroddiad o weithgareddau'r Gymdeithas a fydd yn ceisio mesur ei pherfformiad cymdeithasol ac amgylcheddol drwy ddefnyddio pa dull bynnag sy'n

addas yn nhyb yr Aelodau. Yn dilyn cwblhau adroddiad o'r fath dylai'r Gymdeithas adrodd am unrhyw ganfyddiadau i'w Haelodau a rhanddeiliaid eraill.

Indemniad ac Yswiriant

120. Yn amodol ar y rheol ganlynol, gall unrhyw Gyfarwyddwr neu gyn Gyfarwyddwr o'r Gymdeithas gael ei indemnio allan o asedau'r Gymdeithas yn erbyn:
- Unrhyw atebolrwydd a wynebir gan y Cyfarwyddwr hwnnw mewn cysylltiad ag unrhyw esgeulustod, diffyg dalu, torri dyletswydd neu dorri ymddiriedaeth mewn perthynas â'r Gymdeithas;
 - Unrhyw atebolrwydd a wynebir gan y Cyfarwyddwr hwnnw mewn cysylltiad â gweithgareddau'r Gymdeithas yn rhinwedd ei swydd fel ymddiriedolwr cynllun pensiwn galwedigaethol;
 - Unrhyw atebolrwydd arall a wynebir gan y Cyfarwyddwr hwnnw fel Swyddog o'r Gymdeithas.
121. Nid yw'r rheolau uchod yn awdurdodi unrhyw indemniad a fyddai'n cael ei wahardd neu ei wneud yn ddi-rym gan unrhyw ddarpariaeth yn y gyfraith.
122. Gall y Cyfarwyddwyr benderfynu prynu a chadw yswiriant, ar gost y Gymdeithas, er budd unrhyw Gyfarwyddwr neu gyn Gyfarwyddwr o'r Gymdeithas o safbwynt unrhyw golled neu atebolrwydd a wynebwyd neu a allai gael eu hwynebu gan Gyfarwyddwr o'r fath mewn cysylltiad â'u dyletswyddau neu bwerau mewn perthynas â'r Gymdeithas neu unrhyw gronfa bensiwn neu gynllun cyfranddaliadau gweithwyr yn y Gymdeithas.

Llofnodion yr Aelodau Sylfaen	Enwau Llawn yr Aelodau Sylfaen mewn PRIFLYTHRENNAU (dim blaenlythrennau)
1. 	SELWYN JONES
2. 	EIRIAN JAMES
3. 	OWAIN WYN
Llofnod yr Ysgrifennydd	Enw Llawn yr Ysgrifennydd mewn PRIFLYTHRENNAU (dim blaenlythrennau)
1. 	MENNA MACHRETH JONES

- Derbyniwyd fel model gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol 2014 v.1 -

Co-operative and Community Benefit Societies Act 2014

Rules of Llety Arall Cyf

NAME

1. The name of the society shall be Llety Arall Cyf.

REGISTERED OFFICE

2. The registered office of the society shall be at 10 Stryd y Plas, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1RR

INTERPRETATIONS

3. In these rules:

"Address" means a postal address or, for the purposes of electronic communication, a fax number, email address or telephone number for receiving text messages;

"the Act" refers to the Co-operative and Community Benefit Societies Act 2014 or any Act or Acts amending or in substitution of it or them for the time being in force;

"Auditor" means a person eligible for appointment as a company auditor under Part 42 of the Companies Act 2006;

"The Board of Directors" or "Board" means all those persons appointed to perform the duties of directors of the society;

"Board Meeting" includes, except where inconsistent with any legal obligation a physical meeting, a meeting held by electronic means and a meeting held by telephone;

"Clear Days" in relation to the period of notice does not include the day on which the meeting is to be held and the day on which the notice is handed to someone or left at their Address, or the day on which it is sent, is in the process of being sent and is assumed to be delivered;

"Director" means a director of the society and includes any person occupying the position of director, by whatever name called;

"Document" includes, unless otherwise stated, any document sent or supplied in electronic form;

"Electronic Means" shall include, for example, email, video links and secure authenticated website transactions;

"Employee" means anyone holding a contract of employment with the Society;

